

CANLLAWIAU I GYMRU GYFAN AR UWCHGYFEIRIO GOFAL CRITIGOL ER MWYN RHEOLI CYNNYDD MAWR HEB EI GYNLLUNIO YN Y GALW - Rhagfyr 2016

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn gyntaf yn ystod y fflw pandemig yn 2009 a fflw'r gaeaf yn 2010, a chyhoeddwyd canllawiau dros dro wedi'u diweddarau ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r holl fersiynau blaenorol o ganllawiau uwchgyfeirio a chynllunio brys ar gyfer gwasanaethau gofal critigol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae adegau pan fydd gwasanaethau gofal critigol o dan bwysau mawr oherwydd digwyddiad mawr, achosion o glefyd heintus neu gynnydd parhaus arall yn y galw, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i ymateb ar adegau o'r fath er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau a chynnal gofal cyfartal.

Nod y canllawiau yw:

- a) atal achosion o farwolaeth ac afiachedd y gellir eu hosgoi am nad yw cleifion y mae angen gofal critigol arnynt yn cael lefel briodol o ofal / cymorth i'r organau mewn pryd;
- b) manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau yn y system gofal critigol mewn amrywiaeth o senarios drwy ddull uwchgyfeirio a daduwchgyfeirio cydgysylltiedig ar draws ardaloedd daearyddol;
- c) osgoi *brysbennu yn ôl adnoddau* (yn hytrach na *brysbennu yn ôl angen clinigol*) nes bod pob opsiwn uwchgyfeirio posibl arall wedi cael ei ystyried.

Diben y canllawiau yw nodi'r gofynion ar sefydliadau'r GIG i ddatblygu'r gallu i reoli cynnydd mawr heb ei gynllunio yn y galw am ofal critigol pan fo ymchwydd. Efallai y bydd angen uwchgyfeirio i ymateb i ymchwydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol yn y galw dros gyfnod estynedig, digwyddiad mawr neu achos brys, a rheoli'r broses adfer. Defnyddir y term ymchwydd i ddisgrifio'r pwysau ar y system gofal critigol gyfan yn hytrach na chyfeirio at adegau prysur o ddydd i ddydd o fewn unedau unigol.

Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â chynlluniau uwchgyfeirio lleol, cynlluniau rhanbarthol/rhwydwaith a chanllawiau cenedlaethol eraill megis Canllawiau Craidd Cynllunio Brys GIG Cymru a Fframwaith Cymru ar gyfer Rheoli Achosion o Glefydau Heintus Difrifol.

Ar adegau efallai y bydd angen trosglwyddo cleifion rhwng ysbytai am resymau anghlinigol. Dylai pob claf gael ei gludo yn unol â *Chanllawiau Cymru ar gyfer Trosglwyddo Oedolion sy'n Ddifrifol Wael (2016)*, neu *5ed Argraffiad Cymdeithas Gofal Dwys Pediatrig (PICS) Standards for the Care of Critically Ill Children (2015)*.

Gellir ystyried bod y gwaith o gynllunio ar gyfer digwyddiad mawr yn waith ar wahân i gynllunio ar gyfer ymchwydd dros gyfnod estynedig megis nifer fawr o achosion o glefyd heintus gan fod y digwyddiad yn debygol o fod yn lleol ac y dylai adnoddau ychwanegol o fewn y Rhwydwaith a'r tu allan iddo fod ar gael.

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae pob ysbyty aciwt wedi'i ddynodi'n ymatebydd categori 1 ac fel y cyfryw mae'n rhaid bod ganddo Gynllun Digwyddiad Mawr ar waith i ymdopi â galw cynyddol am wasanaethau. Er na fydd pob digwyddiad mawr yn cynnwys gofal critigol, mae'n angenrheidiol bod gwasanaethau gofal critigol yn gallu ymateb yn lleol ac ar draws y rhwydwaith i gynnydd sydyn yn y galw am welyau.

Pe bai digwyddiad mawr, mae'n annhebygol y byddai ysbyty unigol yn gallu ymdopi â chynnydd dramatig sydyn yn y galw am welyau. Felly mae angen cynllunio ar gyfer adnoddau cynyddol ym mhob ysbyty unigol ac ar draws y rhwydwaith, gan gynnwys ganolfan drawma mawr a'r rhwydwaith trawma. Gall cynllun i ymdrin â'r cynnydd hwn yn y galw fod ar wahân i'r cynllun i ymdrin â nifer fawr o achosion o glefyd heintus oherwydd

dylai'r digwyddiad fod yn un lleol a dylai adnoddau ychwanegol o fewn y Rhwydwaith a'r tu allan iddo fod ar gael.

Fel arfer, ymdrinnir ag achosion o glefyd yn lleol gan seilwaith iechyd y cyhoedd ac awdurdodau lleol er atal a rheoli clefydau heintus, yn unol â'r Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru. Mewn argyfwng clefyd heintus mawr mae'r holl adnoddau yn debygol o fod dan bwysau mawr ac mae'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn ddwys, am gyfnod estynedig ac ar raddfa genedlaethol. Bydd maint argyfwng o'r fath yn gofyn am weithgarwch cydgysylltu cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu *Cynllun Ymateb Cymru Gyfan*, sy'n cynnwys gweithredu Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru).

Yn dibynnu ar ddirifoldeb unrhyw achos o glefyd heintus bydd nifer yr unigolion y mae angen gofal critigol arnynt yn amrywio, gyda'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu gwneud yn fwy agored i salwch difrifol yn fwy tebygol o fod ag angen cymorth gofal critigol.

Yn ogystal â chynyddu'r adnoddau sydd ar gael, mae atal salwch difrifol yn y lle cyntaf yn elfen hollbwysig o ran lleihau'r galw am welyau gofal critigol. Dylai ein polisi o gynig triniaeth i bob claf mewn grwpiau risg uchel a blaenoriaethu'r grwpiau hyn ar gyfer brechu olygu y bydd llai o bobl yn cael symptomau difrifol sy'n gofyn am ofal critigol yn yr ysbyty. Mae ymgyrchoedd imiwneiddio staff ar gyfer yr holl staff iechyd rheng flaen a mesurau hylendid y dwylo hefyd yn cyfrannu at leihau'r risg o absenoldeb staff oherwydd salwch.

Lefelau uwchgyfeirio

Mae'r tabl canlynol yn awgrymu y dylid ystyried uwchgyfeirio o fewn ysbytai ar bedair lefel. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â statws 2 a 3 yn bennaf.

Busnes Arferol Statws 0 (Effaith arferol ar wasanaethau)	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio 'arferol' • Mae adnoddau ar gael o fewn uned(au) gofal critigol ysbyty • Mae derbyniadau dewisol/a gynlluniwyd sy'n gofyn am ofal critigol yn parhau • Cleifion sy'n cael eu trosglwyddo yn cael eu derbyn
Cyn ymchwydd Statws 1 (Effaith gymedrol ar wasanaethau)	<ul style="list-style-type: none"> • Arwyddion cynnar o anhawster / rhai gweithgareddau byrdymor penodol sy'n gofyn am drosglwyddo cleifion ac aildrefnu gweithgarwch dewisol mewn ysbyty penodol • Stoc gwelyau gofal critigol 'arferol' yn llawn (neu ar fin bod yn llawn o fewn y bwrdd iechyd); heb gynnwys oedi cyn trosglwyddo. • Llawdriniaeth nad yw'n llawdriniaeth frys, sy'n gofyn am ofal critigol yn cael ei chanslo • Angen ystyriaeth ofalus o lawdriniaeth frys a gynlluniwyd/llawdriniaeth ddewisol • Dim adnoddau i dderbyn cleifion wedi'u trosglwyddo.
Ymchwydd ac Uwchgyfeirio Lleol Statws 2 (Effaith ddirifol ar wasanaethau)	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysau gormodol difrifol/estynedig sy'n gofyn am waith rheoli ychwanegol sylweddol • Problemau o ran adnoddau yn parhau mewn uned benodol sy'n gofyn am gyd-gymorth parhaus gan unedau gofal critigol eraill yn unol â chynllun uwchgyfeirio gofal critigol y Rhwydwaith • Stoc gwelyau gofal critigol 'arferol' yn llawn ac wedi dechrau defnyddio adnoddau 'ymchwydd' • Penderfyniad i fwrw ymlaen â llawdriniaeth frys yn cael

	<p>ei wneud ar sail bwrdd iechyd unigol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen ystyriaeth ofalus o ran parhau â llawdriniaeth arferol i gleifion mewnol (nad yw'n cynnwys Unedau Gofal Dwys) er mwyn trosglwyddo adnoddau i'r cyfnod ymchwydd
<p>Uwchgyfeirio Eangach Statws 3 (Tarfau Mawr ar wasanaethau)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysau eithafol sy'n gofyn am gamau gweithredu sylweddol ar unwaith • Pob gwely ymchwydd a gwely arferol yn llawn (ar lefel ymchwydd 100% neu tu hwnt) • Cwtogi ar weithgarwch dewisol mewn ardal ehangach • Dim adnoddau cymorth anadlu ar gael • Bydd angen i bob claf a dderbynnir sy'n cael cymorth i anadlu gael ei drosglwyddo allan • Cyflwyno adroddiad ar y sefyllfa o ran uwchgyfeirio yn y modd a'r amlder a ragnodir gan Lywodraeth Cymru

Camau Gweithredu Angenrheidiol

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ddangos yn glir fod eu trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio gofal critigol yn bodloni gofynion y canllawiau hyn. Mae angen i bob bwrdd iechyd a rhanbarth rhwydwaith gofal critigol a thrawma sicrhau eu hunain bod ganddynt gynlluniau ar waith i ymateb yn gyflym i'r fath alw am wasanaethau. Mae angen i'r cynlluniau hynny ystyried y canllawiau hyn a'r canllawiau ar ddigwyddiadau mawr, a chynnwys cynlluniau parhad busnes. At hynny, mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo gynllun cadarn ar waith i ddadebru/sefydlogi plant difrifol wael a lle y bo angen, ddarparu gofal critigol pediatrig parhaus tra'n aros i'r gwasanaeth cludo arbenigol gyrraedd, neu pan fydd problemau o ran adnoddau yn golygu nad oes gwely ar gael mewn Uned Gofal Dwys Pediatrig am gyfnod estynedig.

Egwyddorion

- Mae'n debygol y bydd angen ymatebion rhanbarthol neu genedlaethol pan fydd angen adnoddau ymchwydd
- Dylai ysbytai o fewn Byrddau Iechyd ymateb i ymchwydd gyda'i gilydd h.y. yn hytrach na sefyllfa lle mae un ysbyty yn uwchgyfeirio ond mae adnoddau ar gael mewn un arall.
- Mae'n rhaid i fyrddau iechyd gynllunio ar gyfer cynnydd o 100% mewn adnoddau gofal critigol (â chymorth anadlu) Unedau Therapi Dwys pediatrig ac oedolion lefel 3
- Mae'n rhaid i fyrddau iechyd gynllunio ar gyfer cynnydd mewn adnoddau newyddenedigol lefel 3 yn unol â chynlluniau uwchgyfeirio'r rhwydwaith newyddenedigol
- Cynnal y lefel orau o ofal/gwasanaeth lle y bo modd
- Mynediad cyfartal at ofal (oni chyrhaeddir statws 3)
- Lle y bo modd, lleihau nifer y cleifion a drosglwyddir am resymau anghlinigol i'r eithaf
- Mae'n rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o ofal critigol - lleihau nifer yr achosion o Oedi Cyn Trosglwyddo o ofal critigol ac osgoi derbyniadau diangen e.e. sicrhau'r lefel uchaf o frechu, rhoi cyngor iechyd y cyhoedd. *Mae'n rhaid i gleifion y mae angen eu rhyddhau o gyfleuster gofal critigol gael y flaenoriaeth uchaf uwchlaw pob gofyniad llif cleifion arall*
- Sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol - e.e. system Cyfeiriadur Gwasanaethau'r GIG bob awr o leiaf yn ystod cyfnod ymchwydd
- Adroddiadau rheolaidd ar statws uwchgyfeirio a nifer y gwelyau sydd ar gael - dylai adroddiadau statws dyddiol gael eu hategu gan delegynadleda o leiaf ddwywaith y dydd rhwng unedau gofal critigol ysbytai.

- Dylai polisïau uwchgyfeirio fod wedi'u diffinio'n dda, eu deall yn glir, ac wedi'u profi'n dda.
- Dylid pennu a chyfleu trothwyon ac awdurdodau clir sy'n sbardun i roi cynlluniau uwchgyfeirio ar waith a'u hatal
- Dim ond ar ôl ymgynghori â'r gymuned gofal critigol ehangach y dylid gwneud penderfyniadau clinigol anodd a gweithredu polisïau ynglŷn â brysbennu ac oferedd ymyriadau cleifion, yn hytrach nag ar system sgorio seicolegol yn unig megis Asesiad o Fethiant Dilyniannol Organau (SOFA).
- Dilyn canllawiau ar Fethiant Anadlol Difrifol

Mewn sefyllfaoedd o darfu mawr ar wasanaethau, mae'n annhebygol iawn y bydd modd cynnal safonau clinigol cenedlaethol. Mae angen i bob bwrdd iechyd gynllunio ar gyfer darparu gofal y tu allan i gyfleusterau gofal critigol a chan staff nad ydynt yn staff critigol a sicrhau bod staff o'r fath yn cael hyfforddiant ymlaen llaw a'u goruchwyllo a'u cynorthwyo'n ddigonol. Dylai byrddau iechyd ystyried bod yn hyblyg ynglŷn â'u hadnoddau eu hunain cyn ceisio trosglwyddo cleifion i fwrdd iechyd cyfagos sydd eisoes yn defnyddio adnoddau ymchwydd (ar statws 2).

Effaith ar Weithgarwch Dewisol

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau gofal critigol y tu allan i drefniadau cyd-gymorth 'busnes arferol', efallai y bydd angen i fwrdd iechyd atal llawdriniaeth ddewisol a fydd yn gofyn am wasanaethau gofal critigol ôl-lawdriniaeth yn gyffredinol. Caiff gweithgarwch atal llawdriniaeth ddewisol dros dro o'r fath ei weithredu (fel y bo'n briodol yn glinigol) ar sail fesul cam fel a ganlyn:

- a) Cam 1 – canslo dros dro bob llawdriniaeth ddewisol lle na pheryglir bywyd (ac eithrio llawdriniaethau sylweddol oncolegol, fasgwlaidd, cardiothorasic neu niwrolawdriniaethau, lle y disgwylir y bydd angen cymorth gwasanaeth gofal critigol ar y claf yn y cyfnod yn union ar ôl cael llawdriniaeth;
- b) Cam 2 – fel cam 1 ond hefyd ganslo dros dro bob llawdriniaeth *fasgwlaidd, cardiothorasic a niwrolawdriniaeth* ddewisol lle na pheryglir bywyd, lle y disgwylir y bydd angen cymorth gwasanaeth gofal critigol ar y claf yn y cyfnod yn union ar ôl cael llawdriniaeth;
- c) Cam 3 – fel cam 1 a 2 ond hefyd ganslo dros dro bob *llawdriniaeth ddewisol gan gynnwys llawdriniaethau oncolegol, cardiothorasic, fasgwlaidd a niwrolawdriniaethau*, lle y disgwylir y bydd angen cymorth gwasanaeth gofal critigol ar y claf yn y cyfnod ar ôl cael llawdriniaeth.

Rheoli data adnoddau ynglŷn â gwasanaethau gofal critigol

Dylai Unedau Gofal Critigol Oedolion sicrhau bod ganddynt systemau a phrosesau ar waith i ddiweddarau eu sefyllfa gyffredol o ran y gwelyau sydd ar gael ar system Cyfeiriadur Gwasanaethau Llwybrau'r GIG, fel rhan o'u broses o dderbyn a rhyddhau cleifion. Lle nad oes unrhyw newid yn yr adnoddau sydd ar gael, dylai unedau gofal critigol gydnabod hyn o fewn y system *bob pedair awr yn ystod ymchwydd*. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â system Cyfeiriadur Gwasanaethau Llwybrau'r GIG, gan gynnwys Adroddiadau ar y Sefyllfa o ran Uwchgyfeirio yn Atodiad 2.

Gofal Dwys Pediatrig

Mae gwasanaethau i blant yn debygol o fod dan bwysau mawr cyn gwasanaethau i oedolion ac mae'n rhaid cytuno ar gynlluniau â'r Uned Gofal Dwys Pediatrig yng Nghaerdydd a Gogledd-orllewin Lloegr (drwy ymddiriedolaethau Gogledd-orllewin Lloegr) i reoli sefyllfaoedd o'r fath. Mae gan yr Uned Gofal Dwys Pediatrig yng Nghaerdydd gyd-drefniadau â Bryste ar waith. Dylai fod modd i Uned Gofal Dwys Pediatrig ddyblu adnoddau Uned Therapi Dwys (â chymorth anadlu) gyda chleifion Unedau Dibyniaeth Fawr yn cael

gofal ar wardiau pediatrig cyffredinol o dan drefniadau cyd-reoli meddygon ymgynghorol ac anesthetyddion pediatrig gyda chymorth Uned Gofal Dwys Pediatrig. Darperir Gwasanaethau Pediatrig Trydyddol i Ogledd Cymru gan Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl yn bennaf ond hefyd gan Ysbyty Plant Manceinion lle y bo angen. Dylai cynlluniau fod ar waith i uwchgyfeirio gwasanaethau er mwyn dyblu'r adnoddau Uned Gofal Dwys (â chymorth anadlu) os oes angen.

Unwaith y bydd holl adnoddau (estynedig) Uned Gofal Dwys Pediatrig yn llawn, a, lle y bo'n briodol ac yn ddiogel yn glinigol, efallai y bydd angen gofalu am blant hŷn mewn unedau gofal critigol lleol mewn ysbytai sydd â gwasanaethau pediatrig i gleifion mewnol, gan gynnwys profiad o feddyginiaethau pediatrig ac anestheteg bediatrig, ar y safle. Dylai penderfyniadau ynghylch pa blant ddylai gael gofal yn lleol a pha blant ddylai gael eu trosglwyddo i Uned Gofal Dwys Pediatrig gael eu gwneud ar y cyd â'r Uned Gofal Dwys Pediatrig ar sail y claf unigol. Dylai fod gan fyrddau iechyd gynlluniau ar waith i ddadebru/sefydlogi plant difrifol wael a lle y bo angen, ddarparu gofal critigol pediatrig parhaus tra'n aros i'r gwasanaeth cludo arbenigol gyrraedd, neu pan fydd problemau o ran adnoddau yn golygu nad oes gwely ar gael mewn Uned Gofal Dwys Pediatrig am gyfnod estynedig.

Gofal critigol newyddenedigol

Dylid hefyd ddatblygu adnoddau Gofal Critigol Newyddenedigol er mwyn ymdopi â'r galw posibl; gellir cael canllawiau gan y rhwydwaith newyddenedigol. Dylai byrddau iechyd sicrhau eu bod yn nodi ac yn cyflogi'r nifer briodol o staff medrus i ofalu am y nifer gynyddol ddisgwyliedig o fabanod pwysau geni isel a chynamserol sâl. Rhan annatod o hyn yw uwchsgilio/hyfforddi nyrsys a bydwagedd a all roi'r gofal cywir o dan fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno.

Dylai gofal i ferched beichiog â salwch fod yn amserol ac anelu at leihau cymhlethdodau i'r fam a geni cynamserol. Dylai merched beichiog y bydd angen gofal critigol arnynt neu y mae'n debygol y bydd angen gofal Lefel 3 mewn Uned Gofal Dwys Newyddenedigol ar eu baban gael gofal a rhoi genedigaeth mewn uned famolaeth sydd â mynediad ar y safle at ofal critigol oedolion a chyfleusterau Uned Gofal Dwys Newyddenedigol Lefel 3.

Os bydd achos o glefyd heintus, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau y caiff pob merch feichiog ei brechu pan fo brechiad priodol ar gael.

Gofalu am gleifion o bob oedran sydd â phroblemau gofal anadlol cymhleth

Mae angen i unedau gofal critigol gydweithio er mwyn sicrhau y caiff cleifion sydd â phroblemau anadlol cymhleth eu trafod gydag unedau gofal critigol 'rhanbarthol' a / neu eu rheoli ganddynt (Caerdydd ac Abertawe yn y de; mae trefniadau ar wahân ar waith i gleifion y gall fod angen EOMO arnynt drwy Glenfield, Caerlŷr i'r gogledd) ac y caiff cleifion sydd â phroblemau llai difrifol eu rheoli mewn unedau eraill hyd y gellir.

Dylai fod gan rwydweithiau ganllawiau rhanbarthol ar reoli cleifion sydd â methiant anadlol difrifol. Os bydd cyflwr clinigol claf yn dirywio, dylid cael trafodaeth ag unedau gofal critigol rhanbarthol ynghylch priodoldeb Cymorth Anadlu Osgiliadol Amledd Uchel (HFOV) a Nitrig Ocsid (NO), i haen atgyfeirio terfynol, o dan arweiniad y Canolfannau Anadlol, i ganolfannau ar gyfer Ocsigenu Drwy Bilen Allgorfforol (ECMO). Dylai'r trafodaethau hyn gael eu cynnal rhwng y meddyg ymgynghorol sy'n atgyfeirio, a meddyg ymgynghorol yn y ganolfan anadlol a meddyg ymgynghorol yn y ganolfan ECMO (os yw'n wahanol i'r ganolfan anadlol). O dan rai amgylchiadau, gall ECMO fod o werth o ran rheoli cleifion hypocsig iawn ond mae'r niferoedd yn fach.

Atodiad 1 – Lefelau gofal critigol

Mae pum lefel gydnabyddedig o ofal critigol cyffredinol i oedolion:

Lefel	Disgrifiad
Lefel 0	Yn addas ar gyfer cleifion y gellir diwallu eu hanghenion drwy ofal ward arferol mewn ysbyty aciwt.
Lefel 1	Yn addas ar gyfer cleifion sy'n wynebu'r risg y bydd eu cyflwr yn dirywio, y rhai sydd wedi cael eu hadleoli'n ddiweddar o lefelau gofal uwch a'r rhai y gellir diwallu eu hanghenion ar ward aciwt gyda chyingor a chymorth ychwanegol gan y tîm gofal critigol.
Lefel 2	Yn addas ar gyfer cleifion wedi'u derbyn i'r ysbyty y mae angen goruchwyliaeth fanylach neu ymyriad arnynt, gan gynnwys cymorth ar gyfer system lle mae un organ yn methu, gofal ôl-lawdriniaeth a'r rhai sy'n symud o lefelau gofal uwch i lefel is.
Lefel 3	Yn addas ar gyfer cleifion wedi'u derbyn i'r ysbyty y mae angen cymorth anadlu uwch arnynt yn ychwanegol at yr uchod, ond y gallai parhad cymorth aml-organ neu'r gallu i reoli cleifion lluosog gael eu cyfyngu oherwydd cyfyngiadau staffio neu gyfarpar.
Lefel 3T	Dylai cymorth a monitro organau ar gyfer y rhan fwyaf o systemau'r corff fod ar gael ar Lefel 3T ac fel arfer byddai'r cyfleusterau hyn ar gael i gleifion lluosog ar yr un pryd. Mae'r lefel hon yn addas ar gyfer cleifion difrifol wael y mae angen cymorth estynedig arnynt oherwydd methiant aml-organ. Byddai unedau o'r fath yn chwarae rôl addysgu a hyfforddi bwysig.

Llywodraeth Cymru (2013) Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofalu am y Rhai sy'n Ddifrifol Wael
<http://www.wales.nhs.uk/documents/Delivery-Plan-for-the-critically-ill-w.pdf>

Levels of Care and Patient Dependency gan Gymdeithas Gofal Dwys Pediatrig Atodiadau i'r Safonau ar gyfer Gofal Plant Difrifol Wael , 4^{ydd} Argraffiad, Mehefin 2010:

Lefel	Disgrifiad	Cymhareb Nyrsio
Lefel 1	Cleifion Dibyniaeth Fawr Cymorth anadlu cronig hirdymor (gyda thraceostomi) Pwysedd cadarnhaol parhaus ar y llwybr anadlu (CPAP) a chymorth anadlu anfewnwithiol	Cymhareb rhwng nyrs a chlaf o 0.5:1
Lefel 2	Cleifion Gofal Dwys Â thiwb wedi'i osod a chymorth anadlu	Cymhareb rhwng nyrs a chlaf o 1:1
Lefel 3	Cleifion â thiwb wedi'i osod a chymorth anadlu sy'n cael cyffuriau fasactif a chymorth inotropaid neu sydd â methiant aml-organ	Cymhareb rhwng nyrs a chlaf o 1.5:1
Lefel 4	Â thiwb wedi'i osod a chymorth anadlu sydd â methiant aml-organ sy'n cael ECMO neu therapi amnewid arenol	Cymhareb rhwng nyrs a chlaf o 2:1

5ed Argraffiad Cymdeithas Gofal Dwys Pediatrig (PICS) Standards for the Care of Critically Ill Children (2015)

http://picsociety.uk/wp-content/uploads/2016/05/PICS_standards_2015.pdf

Rhoddir y diffiniad o ofal dwys newyddenedigol gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM): *Categories of Care 2011* dynodiadau unedau:

Lefel	Disgrifiad
Lefel 1	<p>Mae unedau lefel 1 yn darparu gofal arbennig. Darperir gofal arbennig ar gyfer babanod y mae angen gofal ychwanegol arnynt gan y gwasanaeth newyddenedigol ond nad oes angen gofal dwys na gofal dibyniaeth fawr arnynt ac y mae angen unrhyw un o'r canlynol arnynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> o ocsigen drwy ganiwla trwyn o bwydo drwy diwb trwyn i'r stumog y, tiwb i'r coluddyn gwag neu gastrostomi o monitro ffisiolegol parhaus (heblaw monitorau apnoea yn unig) o gofal o presenoldeb caniwla IV o baban sy'n cael ffototherapi o arsylwi arbennig ar newidynnau ffisiolegol o leiaf bob pedair awr
Lefel 2	<p>Mae unedau lefel 2 yn darparu Gofal Dibyniaeth Fawr ar gyfer y babanod y mae angen gofal staff hyfedr arnynt ond lle mae'r gymhareb rhwng y nyrs a'r claf yn llai na gofal dwys. Unrhyw ddiwrnod lle nad yw baban yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal dwys lle mae unrhyw un o'r canlynol yn gymwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ddiwrnod lle mae baban yn cael unrhyw fath o gymorth anfewnwithiol (e.e. CPAP, SIPAP, BIPAP, HHFNC drwy'r trwyn) • Unrhyw ddiwrnod lle mae'n cael unrhyw un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> o maeth parenterol o trwytho cyffuriau'n barhaus (ac eithrio prostaglandin a/neu inswlin) o presenoldeb llinell wythiennol ganolog neu linell hir (PICC) o presenoldeb traceostomi o presenoldeb cathetr wrethrol neu uwchwerddyrol
Lefel 3	<p>Mae unedau lefel 3 yn darparu gofal a ddarperir ar gyfer babanod sydd fwyaf sâl neu ansefydlog ac sydd â'r anghenion mwyaf o ran sgiliau staff a'r gymhareb rhwng staff a chlaf. Unrhyw ddiwrnod lle mae baban yn cael unrhyw fath o gymorth anadlu mecanyddol drwy diwb y tracea</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymorth anadlu anfewnwithiol (e.e. CPAP, SIPAP, BIPAP drwy'r trwyn, vapo-therm) A PN • Diwrnod y llawdriniaeth (gan gynnwys therapi laser ar gyfer ROP) • Diwrnod y farwolaeth • Unrhyw ddiwrnod lle mae'n cael unrhyw un o'r canlynol <ul style="list-style-type: none"> o Presenoldeb llinell rhydweili'r bogail o Presenoldeb llinell wythiennol y bogail o Presenoldeb llinell rydweiliol amgantol o Trwytho inswlin o Presenoldeb offer draenio'r frest o Trallwysiad cyfnewid o Hypothermia therapiwtig o Trwytho prostaglandin o Presenoldeb tiwb replogle o Presenoldeb cathetr epidwral o Presenoldeb seilo oherwydd gastroscisis o Presenoldeb offer draenio fentrigalaidd allanol

	o Dialysis (unrhyw fath)
--	--------------------------

Service Standards for hospitals providing neo-natal care 2010
www.bapm.org/.../guidelines/BAPM_Standards_Final_Aug2010.pdf

Atodiad 2 – Data ar adnoddau gwelyau gofal critigol

Data Adnoddau 'Busnes Arferol'

Caiff Data ar Welyau Gofal Critigol Oedolion eu casglu fel arfer drwy ddefnyddio **Cyfeiriadur Gwasanaethau Llwybrau'r GIG** – data a gyflwynir sy'n dangos nifer y Gwelyau Gofal Critigol Oedolion sydd ar gael drwy gydol y dydd. Fel arfer, caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno bob chwe awr, saith diwrnod yr wythnos.

Cyfeiriadur Gwasanaethau Llwybrau'r GIG – Set Ddata Cyflwr Gwelyau Gofal Critigol Oedolion

Colofn 1: Enw'r uned	
Diffiniad	Enw'r ysbyty, uned i gynnwys Uned Gofal Dwys (Lefel 3)/Uned Dibyniaeth Fawr (Lefel 2), arbenigedd os yw'n briodol h.y. Niwroleg (dylid osgoi defnyddio byrfoddau ar eu pennau eu hunain). (<i>Mae Cyfeiriadur Gwasanaethau Llwybrau'r GIG yn cynnwys rhagddodiad yn ganolog er mwyn hwyluso chwiliad daearyddol</i>)
Rhesymeg	Cofnodir dynodydd unigryw a lleoliad ar gyfer gwelyau a gweithgarwch cleifion
Colofn 2: Gwelyau Lefel 3 yn wag ac ar gael	
Diffiniad	Nifer y gwelyau Lefel 3 sydd ar gael i dderbyn claf Lefel 3 ar unwaith, ar yr amod bod atgyfeiriad a bod derbyniad ar lefel y Meddygon Ymgynghorol, h.y. heb eu trefnu ar gyfer claf arall nac yn aros am i glaf gael ei ryddhau/ryddhau ar ôl oedi.
Rhesymeg	Mae'n dangos yr adnoddau Lefel 3 sydd ar gael i hwyluso'r broses o drosglwyddo cleifion am resymau clinigol/anghlinigol.
Colofn 3: Gwelyau Lefel 2 yn wag ac ar gael	
Diffiniad	Nifer y gwelyau Lefel 2 sydd ar gael i dderbyn claf Lefel 2 ar unwaith, ar yr amod bod atgyfeiriad a bod derbyniad ar lefel y Meddygon Ymgynghorol, h.y. heb eu trefnu ar gyfer claf arall nac yn aros am i glaf gael ei ryddhau/ryddhau ar ôl oedi.
Rhesymeg	Mae'n dangos yr adnoddau Lefel 2 sydd ar gael i hwyluso'r broses o drosglwyddo cleifion am resymau clinigol/anghlinigol a/neu gynllunio ac uwchgyfeirio.
Colofn 4: Cyfanswm cymysgedd Lefel 3 / Lefel 2	
Diffiniad	Cyfanswm y gwelyau Lefel 3 / Lefel 2 a ariennir yn yr uned
Rhesymeg	Mae'n rhoi llinell sylfaen o nifer y gwelyau y gellir cymharu uwchgyfeirio ac anghenion cleifion yn ei herbyn
Colofn 5: Cleifion Lefel 3 mewn Uned	
Diffiniad	Nifer y cleifion Lefel 3 yn yr uned
Rhesymeg	Dangos aciwtedd cleifion mewn unedau cymysg a rhoi gwybodaeth am aciwtedd ar draws Rhwydweithiau a rhanbarthau (ac yn genedlaethol) ar adegau o ymchwydd. Bydd yn helpu proses uwchgyfeirio bosibl yn lleol. Gyda'i gilydd bydd yn helpu proses uwchgyfeirio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Colofn 6: Cleifion Lefel 2 mewn Uned	
Diffiniad	Nifer y cleifion Lefel 2 yn yr uned
Rhesymeg	Dangos aciwtedd cleifion mewn unedau cymysg a rhoi gwybodaeth am aciwtedd ar draws Rhwydweithiau a rhanbarthau (ac yn genedlaethol) ar adegau o ymchwydd. Bydd yn helpu proses uwchgyfeirio bosibl yn lleol. Gyda'i gilydd bydd yn helpu proses uwchgyfeirio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol
Colofn 7: Cleifion Lefel 1 / Lefel 0 mewn Uned	
Diffiniad	Nifer y cleifion Lefel 1/Lefel 0 yn yr uned
Rhesymeg	Dangos nifer y cleifion Lefel 1/Lefel 0 mewn unedau sy'n aros i gael eu rhyddhau o Uned Gofal Critigol a gall awgrymu anhawster i sicrhau bod cleifion yn 'symud i lawr' i welyau ward ar lefel briodol
Colofn 8: Cleifion Lefel 3 y tu allan i'r Uned	
Diffiniad	Nifer y cleifion Lefel 3 sy'n cael eu rheoli y tu allan i'r gwelyau gofal critigol dynodedig (h.y. theatrau, mannau adfer, uwchgyfeirio). Ni fwriedir cofnodi cleifion sydd wedi mynd i'r theatr i gael llawdriniaeth neu i gael tomograffeg gyfrifiadurol ac ati.
Rhesymeg	Nodi'r angen ymhlith cleifion am welyau gofal critigol heb ei fodloni o bosibl i) mewn amgylchiadau gwaith arferol ii) pan fo ymchwydd. Helpu proses wedi'i thargedu o uwchgyfeirio ymateb a/neu helpu proses o gynllunio a chomisiynu nifer y gwelyau
Colofn 9: Cleifion Lefel 2 y tu allan i'r Uned	
Diffiniad	Nifer y cleifion Lefel 2 sy'n cael eu rheoli y tu allan i'r gwelyau gofal critigol dynodedig (h.y. theatrau, mannau adfer, uwchgyfeirio). Ni fwriedir cofnodi cleifion sydd wedi mynd i'r theatr i gael llawdriniaeth neu i gael tomograffeg gyfrifiadurol ac ati
Rhesymeg	Nodi'r angen ymhlith cleifion am welyau gofalu critigol heb ei fodloni o bosibl i) mewn amgylchiadau gwaith arferol ii) pan fo ymchwydd Helpu proses wedi'i thargedu o uwchgyfeirio ymateb a/neu helpu proses o gynllunio a chomisiynu nifer y gwelyau.
Colofn 10: Gwelyau a neilltuwyd	
Diffiniad	Cyfanswm nifer y gwelyau sydd wedi'u trefnu ar gyfer unrhyw gleifion sy'n dod i mewn i'r uned, gan gynnwys cleifion sy'n dychwelyd iddi.
Rhesymeg	Sicrhau bod gwelyau yn dal i fod ar gael i'r cleifion y disgwylir iddynt ddod i mewn.
Colofn 11: Nodiadau am y Gwasanaeth	
Blwch 'testun rhydd' yw hwn, sy'n rhoi cyfle i gynnwys unrhyw destun sy'n rhoi rhagor o	

wybodaeth. Mae gwahanol Unedau Gofal Critigol i Oedolion ac Unedau Gofal Critigol yn defnyddio gwahanol 'ddisgrifiadau lleol' er mwyn amlinellu'r adnoddau sydd ar gael.

Colofn 12: Botymau / Eiconau Swyddogaeth

Data ar Adnoddau Uwchgyfeirio

Pan fydd trefniadau adnoddau uwchgyfeirio ar waith, y tu allan i 'fusnes arferol', efallai y bydd angen cyflwyno data ychwanegol ar y sefyllfa er mwyn helpu gyda threfniadau'r GIG/eu llywio. Lle bynnag y bo modd, caiff ffynonellau data sy'n bodoli eisoes eu defnyddio, ond gyda'r wybodaeth ychwanegol ganlynol

Byddai Byrddau Iechyd yn cael eu hysbysu am y dull o gasglu data a pha mor aml y dylid gwneud hynny, pe bai'r data ychwanegol hyn ar adnoddau uwchgyfeirio yn cael eu coladu.

Atodiad 3 – Dolenni i ddogfennau perthnasol

Cynllun Cyflawni ar gyfer y rhai sy'n ddifrifol wael
<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/delivery-plan/?lang=cy>

Cynllun Oes: Canllawiau ar gyfer Trosglwyddo'r Rhai sy'n Ddifrifol Wael
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=753&id=299607>

Guidelines for the Provision of Intensive Care Services (GPICS) – adran 5.6 resilience planning
https://www.ficm.ac.uk/sites/default/files/GPICS%20-%20Ed.1%20%282015%29_0.pdf

Cymdeithas Gofal Dwys Pediatrig (PICU) Safonau ansawdd ar gyfer gofal plant sy'n ddifrifol wael
<http://picsociety.uk/about-pics/pics-standards/>

Rhwydwaith Gofal Critigol a Thrawma Cymru - canllawiau Gogledd Cymru

Emergency Planning Guidelines
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=753&pid=38483>

Escalation and Triage for Pandemic Flu
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=753&pid=41929>

Escalation Plan for Generic Surge Requirements
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=753&pid=55563>

Severe Respiratory Failure
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=753&pid=63736>

Rhwydwaith Gofal Critigol a Thrawma Cymru - canllawiau De Cymru

Severe Respiratory Failure
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=962&pid=60471>

NHS England – Critical Care Services management of surge documents for adult and paediatric services
<https://www.england.nhs.uk/commissioning/ccs/>

Cynllun Ymateb Cymru Gyfan
<http://walesresilience.gov.uk/behindthescenes/walesresilience/panwalesresponseplan/?lang=cy>

Canllawiau Craidd Cynllunio Brys GIG Cymru
<https://wg.wales.nhs.uk/uniqueid31510284af2ec6dcb998c39315f7a88ce2223c1263895620e9f9605280fdf2/uniqueid0/sites3/page.cfm?orgid=331&pid=25292>

Major Infectious Disease Guidance (gan gynnwys Wales Pandemic Preparedness and Response Guidance)
<https://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=331&pid=53492>

Cynllun ar gyfer Achosion o Glifydau Trosglwyddadwy i Gymru
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88948>

E-lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru – Canllawiau Ategol Safon 2.1
<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards-supporting-gui-13/>